Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Coed-duon**

**Canolfan Addysg Gymunedol Coed-duon**
**Cefn Road**
**Coed-duon**
**NP12 1ZR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Ail-gofrestrwyd Cylch Meithrin Coed-duon gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) ym mis Mehefin 2018 i ddarparu gofal dydd sesiynol i hyd at 19 o blant. Lleolir y cylch meithrin mewn ystafell ddosbarth dros dro fawr ar safle ysgol uwchradd a chanolfan gymunedol Coed-duon ym mwrdeistref Caerffili. Mae plant rhwng dwy a phedair oed yn mynychu'r gwasanaeth, sydd ar agor bob bore o'r wythnos rhwng 9.15am ac 11.45am. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg i blant cymwys ac yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar i blant tair a phedair oed. Bethan Seymour yw'r unigolyn cyfrifol ac Andrea Parfitt yw'r person â chyfrifoldeb, sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae hwn yn wasanaeth Cymraeg, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n briodol.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu. Maent yn gartrefol iawn ac yn cael gofal cyson a magwrus gan staff sy'n meddu ar y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth i ymateb yn effeithiol i anghenion y plant. Mae gan y person â chyfrifoldeb brofiad helaeth, ac mae'n cael cymorth da gan yr unigolyn cyfrifol a swyddogion yr awdurdod lleol, gan gynnwys athro ymgynghorol. Mae'r amgylchedd yn cynnwys adnoddau da iawn ac yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hybu dysgu a datblygiad y plant.

**2. Gwelliannau**

Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o ganlyniad i newid statws cyfreithiol.

Yn dilyn trafodaethau ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, rhoddodd y person â chyfrifoldeb system newydd ar waith yn syth er mwyn i'r staff bob amser gario allwedd i adael yr adeilad gyda nhw ar laniard er mwyn gwella diogelwch y plant.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Nodwyd rhai argymhellion mewn perthynas â gwella rhai gweithdrefnau gofal a rheoli. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad ac yn adran 5 o'r crynodeb.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gwasanaeth o ansawdd da sy'n darparu gofal cynnes a magwrus a phrofiadau cadarnhaol. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd cymdeithasol, emosiynol, creadigol ac ieithyddol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y clwb. Maent yn symud o amgylch yr amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol yn annibynnol ac yn hunangyfeirio eu chwarae i raddau helaeth. Mae'r plant yn hyderus wrth fynegi eu hanghenion, ac mae pob ymdrech i gyfathrebu'n cael ei werthfawrogi a'i annog. Mae'r staff yn gwrando'n astud ar y plant ac yn eu cefnogi i wneud penderfyniad pan fyddant yn newid eu meddwl am ymuno â gweithgaredd. Nid yw pob un o'r plant yn barod i eistedd ac ymuno ag amser cylch a gweithgareddau grŵp, ac mae'n well gan rai ohonynt barhau â gweithgareddau paentio a chrefft. Mae'r staff yn defnyddio dulliau darbwyllo ysgafn ond yn parchu dewisiadau'r plant i wneud gweithgaredd arall.

Mae'r plant yn meithrin hunanhyder drwy ddysgu sut i fynegi eu barn yn rhydd.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn cael gofal cyson a chefnogol. Mae'r staff yn cyfarch pob plentyn a'i deulu yn unigol. Mae'r plant yn mynd at y staff i gael cysur a sicrwydd ac maent yn cael sylw ymatebol ac amserol. Mae'r plant yn gartrefol ac yn ymddangos fel pe baent yn mwynhau'r amgylchedd, ac yn fodlon arno. Maent yn cael ymdeimlad o berthyn gan eu bod yn mynychu'n rheolaidd, yn deall yr arferion dyddiol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae gwaith y plant, ynghyd â'u henw, yn cael ei arddangos ar y waliau, gan ddangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn dangos ymdeimlad o berchenogaeth dros y gwasanaeth. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol a'r staff sy'n gofalu amdanynt, ac mae'r cydberthnasau agos rhyngddynt yn amlwg. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael cysur, ac yn ei gael ar unwaith. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn dawel eu meddwl wrth adael eu plant.

Mae'r gofal agos a chyson a ddarperir yn gwella llesiant emosiynol y plant.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant ar gamau cynnar o ran meithrin sgiliau i ymdopi â'u teimladau. Maent yn dysgu sut i fynegi eu hemosiynau'n briodol ac yn cael arweiniad a chymorth gan y staff pan fo angen. Mae'r plant yn gartrefol iawn ar y cyfan, a hynny am eu bod yn arwain y broses ymgartrefu, ac mae sesiynau ychwanegol, byrrach, yn cael eu trefnu hyd nes bod y plentyn yn barod i ymdopi â bod ar wahân i'w rieni. Mae'r plant yn gwerthfawrogi strwythur y sesiynau ac yn gallu rhagweld y gweithgareddau'n hyderus. Gwelsom blant yn symud i eistedd ar y mat ar yr adeg briodol, ac yn aros i weithgareddau amser cylch ddechrau. Gwelsom y plant yn chwarae'n gydweithredol â'r garej, gan rannu ceir a mwynhau gwneud synau ceir.

Mae'r plant yn cael budd o'r cymorth sydd ar gael er mwyn eu helpu i feithrin cydberthnasau gwerthfawr ac adeiladol.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu ac ehangu eu diddordebau. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n mwynhau archwilio'r amgylchedd. Maent yn cael cyfleoedd i chwarae gemau dychmygus ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain yn greadigol gyda'r adnoddau chwarae rôl sydd ar gael iddynt. Mae llawer o'r plant yn gwerthfawrogi gweithgareddau chwarae llanast ac yn dyfalbarhau â'r gweithgareddau hynny, er enghraifft chwarae â phaent a dŵr, ac maent yn dangos cyffro ac ymdeimlad o gyflawniad. Gwelsom y plant yn canolbwyntio ac yn cymryd gofal wrth greu mygydau, gan eu bod yn edrych ymlaen at fynd â nhw adref at eu rhieni. Mae'r plant yn mwynhau gwisgo i fyny ac yn dewis o blith yr amrywiaeth helaeth o wisgoedd sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol. Maent yn cael eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi'u cymell i ddewis eu gweithgareddau eu hunain a chyfeirio eu chwarae eu hunain. Maent yn mwynhau'r cyfle i fod yn gorfforol ac yn edrych ymlaen at chwarae yn yr ardal awyr agored, sy'n fawr ac yn ddiddorol ac wedi'i gorchuddio gan ganopi mawr. Maent yn manteisio i'r eithaf ar y gofod sydd ar gael i fod yn fywiog ac yn egnïol. Mae'r plant yn cael eu hannog i feithrin sgiliau hunangymorth ac yn arllwys eu diodydd eu hunain, yn helpu eu hunain i fwyd, yn clirio ar ôl byrbrydau ac yn gwisgo eu cotiau. Defnyddir y Gymraeg yn gyson, ac mae'r plant yn magu hyder i'w defnyddio'n ddigymell. Mae'r

gwasanaeth yn cael cymorth gan gynrychiolydd o asiantaeth cyn ysgol Gymraeg, sy'n rhoi cymorth Cymraeg i'r plant a'r staff. Dywedodd y rhieni wrthym fod y plant yn meithrin dealltwriaeth dda o'r iaith.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i feithrin amrywiaeth dda o sgiliau a gwybodaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae systemau effeithiol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan y staff y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n diwallu anghenion y plant. Mae'r staff yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu, ac mae systemau amddiffyn plant cadarn ar waith.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae systemau effeithiol ar waith i alluogi'r staff i fonitro a chofnodi'r holl faterion sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch y plant. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, ac mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r person â chyfrifoldeb a'i staff yn hyderus wrth nodi unrhyw faterion o bryder a'u cyfeirio at yr awdurdod priodol er mwyn ymchwilio iddynt. Mae'r polisi diogelu hefyd yn cyfeirio at strategaeth Atal, sef menter y Llywodraeth i amddiffyn plant rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae cydberthnasau da ar waith â swyddog diogelu'r awdurdod lleol, sydd ar gael i drafod unrhyw bryderon ac i roi cyngor. Mae system ar waith i gofnodi unrhyw anafiadau sydd gan y plant eisoes, ac mae pob damwain yn cael ei chofnodi'n briodol a'i monitro'n rheolaidd. Mae ffeiliau gofal yn cael eu creu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r person â chyfrifoldeb yn cyfeirio plant at yr asiantaeth iechyd briodol fel y bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn gysylltiedig â'r cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach sy'n ystyried pob agwedd ar iechyd a lles y plant. Mae'r plant yn cael budd o fwydlen byrbrydau iach, sy'n cael ei harddangos er mwyn i'r rheini ei gweld. Mae'r gwasanaeth wedi ennill gwobr Byrbrydau Iach gan yr awdurdod lleol. Mae'r plant yn brwsio eu dannedd cyn bwyta fel rhan o fenter hylendid deintyddol Cynllun Gwên. Defnyddir ffurflenni meddyginiaeth i gofnodi'r holl feddyginiaethau a roddir i'r plant. Diwygiwyd y ffurflenni gan y person â chyfrifoldeb yn dilyn yr arolygiad er mwyn cynnwys llofnod y rhieni a'r amser y cafodd y dos diwethaf ei roi gan y rhieni gartref. Ni welsom unrhyw ddŵr ar gael yn rhwydd i'r plant ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd ar gael ar yr ail ddiwrnod.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth sy'n amlinellu pwysigrwydd strategaethau cadarnhaol ac effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad er mwyn hyrwyddo llesiant y plant. Mae pob aelod o staff yn gweithredu mewn modd cyson ac yn ystyriol o oedran a cham datblygu'r plant wrth reoli materion ymddygiadol. Gwelsom y staff yn

penlinio i lefel y plant ac yn cynnal cyswllt llygaid ac yn defnyddio llais tyner er mwyn tynnu sylw'r plant a oedd yn teimlo'n rhwystredig neu'n drist. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y staff yn treulio amser yn trafod materion â'r plant ac yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol. Maent yn canmol y plant am fod yn garedig ac yn gymwynasgar, ac mae'r plant yn gwerthfawrogi'r ymateb hwn.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ystyried yr angen i gynnal hunan-barch y plant.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn ymateb i ofynion emosiynol a chorfforol y plant. Gwelsom y staff yn rhagweld eu hanghenion, gan fod pob gweithiwr cyswllt yn adnabod y plant yn dda. Mae'r staff yn asesu lefelau dealltwriaeth, cyfathrebu ac iaith y plant cyn pen chwe wythnos iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Mae'r holl gofnodion yn seiliedig ar Broffiliau'r Cyfnod Sylfaen, gyda thargedau a gweithgareddau unigol yn cael eu sefydlu er mwyn ymateb i anghenion dysgu'r plant. Mae pob aelod o'r staff yn ymarferydd ELKLAN, sy'n golygu ei fod yn cael hyfforddiant i hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a llafaredd y plant. Caiff pob ymyrraeth ei gwerthuso a thargedau pellach eu datblygu er mwyn cefnogi cynnydd y plant. Mae'r plant y mae angen help ychwanegol arnynt yn cael eu hatgyfeirio at bartneriaid iechyd ac addysg, yn ôl yr angen. Mae polisi 'drws agored' ar waith yn y gwasanaeth, ac mae'n croesawu ymweliadau gan rieni unrhyw bryd er mwyn trafod datblygiad eu plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol i'r plant. Mae wedi'i gynllunio'n dda er mwyn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddysgu a hybu eu datblygiad. Mae'r safle'n fawr ac yn ddiogel, ac mae ganddo fynediad at gyfleusterau chwarae awyr agored da.

### Ein canfyddiadau

**3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?**

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod systemau ar waith i gynnal amgylchedd diogel. Caiff asesiadau risg ac adolygiadau rheolaidd eu cynnal ar gyfer pob ardal a gweithgaredd. Gwelsom restr wirio ddyddiol y mae'r staff yn ei defnyddio bob bore i fonitro'r cyfleusterau. Rhaid i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr er mwyn rhoi cofnod am bob mynediad ag awdurdod i'r adeilad. Mae'r drws fel arfer yn cael ei gadw ar glo pan fydd y plant yn bresennol, er mwyn atal unigolion heb awdurdod rhag dod i mewn i'r adeilad a'r plant rhag mynd allan ar eu pen eu hunain. Gan mai dim ond un allanfa dân sydd yn yr adeilad, trafodwyd yr angen i bob un o'r tri aelod o staff sicrhau eu bod yn cario eu hallwedd gyda nhw bob amser, rhag ofn y bydd angen gwagio'r adeilad ar frys. Ar ail ddiwrnod yr arolygiad, gwelwyd pob aelod o'r staff yn gwisgo eu hallwedd mynediad ar laniard. Gwelsom dystysgrifau gwasanaeth ar gyfer y systemau nwy, trydan a thân, a oedd yn dangos bod pob un ohonynt yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio archwiliad Atal Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r weithdrefn glanhau yn gadarn ac yn drylwyr, ac yn cael ei dilyn bob dydd. Mae'r rhieni'n llofnodi wrth adael eu plant gyda'r gwasanaeth, ac mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y cymarebau staff: plant yn cael eu cynnal bob amser.

Mae systemau effeithiol a gwaith monitro rheolaidd yn cynnal diogelwch yr amgylchedd.

**3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?**

Mae'r cyfleusterau yn ddeniadol ac yn groesawgar, ac maent yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Trafodwyd yr angen i osod arwydd y tu allan i'r adeilad, gan y byddai hynny'n ddefnyddiol i'r rhai sy'n ymweld am y tro cyntaf. Mae'r adeilad wedi cael ei rhannu'n barthau ar wahân ar sail meysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r parthau hyn yn fawr ac yn cynnwys adnoddau da. Mae'r adnoddau chwarae a dysgu yn ennyn diddordeb y plant drwy gydol y sesiynau. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u trefnu'n dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn amnewid adnoddau er mwyn darparu amrywiaeth ac ysgogiad i'r plant. Mae'r toiledau'n lân ac mae'r plant yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Dywedodd y plant wrthym

eu bod yn hoffi chwarae yn yr awyr agored ac yn mwynhau gofalu am y pryfed cop a'u gweoedd, ac fe'u gwelsom yn cyffroi wrth baratoi i fynd allan i'r awyr agored, er bod y tywydd yn oer ac yn annymunol.

Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon dda er mwyn darparu gwasanaeth diddorol ac ysgogol i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas, o ansawdd da ar gael i'r plant, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arddangosfeydd o waith y plant ar y waliau yn dangos eu bod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu am ddigwyddiadau a gwyliau amlddiwylliannol.  Roedd y plant yn edrych ymlaen at ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, a oedd yn cynnwys gwneud mygydau, bwyta bwyd Tsieineaidd a gwisgo i fyny. Mae'r holl ddodrefn a ddefnyddir gan y plant yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu, ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfforddus wrth fwyta a chymryd rhan mewn gweithgareddau bwrdd. Mae gan y plant fachyn cot unigol yn y cyntedd gyda'u henw arno, sy'n eu helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn i'r gwasanaeth.

Mae ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn helpu i feithrin sgiliau a gwybodaeth y plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae gan y person â chyfrifoldeb brofiad helaeth. Mae'n rhannu gweledigaeth gadarn ac ymdeimlad o ddiben â'r staff a'r rhieni, sy'n cynnal gwelliannau a deilliannau da i'r plant. Mae systemau priodol ar waith i fonitro a gwerthuso'r holl weithdrefnau. Mae'r staff yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael cymorth a chyfleoedd datblygu da.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagweithiol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae gan y person â chyfrifoldeb ddealltwriaeth dda o ofynion y ddeddfwriaeth gofal plant berthnasol, ac mae'n anelu at ragori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig. Mae'r cofnodion yn drefnus ac wedi'u strwythuro, a llwyddom i ddod o hyd i'r holl ddogfennau'n hawdd. Mae'r gwasanaeth wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol yn ddiweddar ac mae unigolyn cyfrifol newydd wedi cael ei benodi, sy'n cefnogi ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r staff yn cael cyfleoedd hyfforddi da ac mae pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd, yn ogystal ag amrywiaeth dda o gyrsiau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion meddygol.

Mae'r arweinyddiaeth a threfniadaeth effeithiol yn sicrhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau yn gweithio er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a sicrhau deilliannau cadarnhaol i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r person â chyfrifoldeb yn ymrwymedig i ddatblygu'r gwasanaeth ac i gydweithio â'r staff, y rhieni a'r pwyllgor rheoli er mwyn gwella profiadau'r plant. Mae tîm blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol yn monitro polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'r athro ymgynghorol penodedig yn darparu cymorth a chyngor. Mae'r gwasanaeth yn darparu holiaduron i'r rhieni er mwyn casglu eu barn ar ansawdd y gwasanaeth ac mae'r gweithwyr allweddol yn gweithio gyda'r plant er mwyn deall eu dewisiadau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fynegi eu barn am y gweithgareddau ac mae eu syniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Mae'r cynlluniau ar gyfer gwella yn cynnwys caffael technoleg gwybodaeth newydd a'i defnyddio i ddatblygu iaith y plant; defnyddio camerâu gyda'r plant i hybu iaith a chwarae creadigol; parhau i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi amrywiol er mwyn bod yn

ymwybodol o ddatblygiadau newydd yn y sector, a gweithio gyda'r pwyllgor i godi arian ar gyfer gosod llawr newydd yn yr ardal awyr agored.

Mae systemau effeithiol ar waith i gefnogi datblygiadau yn y gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r person â chyfrifoldeb yn defnyddio'r tîm yn effeithiol ac mae pob aelod o'r staff yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau. Gwelsom arferion cynllunio dyddiol ar waith a'r gweithwyr allweddol yn cyfathrebu â'r plant er mwyn cynnal gweithgareddau â ffocws i gefnogi eu targedau cyflawniad. Dywedodd y staff wrthym, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt adnoddau da i gyflawni eu rolau.  Mae'r cyfraddau absenoldeb staff a throsiant staff yn isel, ac mae'r staff yn teimlo bod gofal bugeiliol yn flaenoriaeth.  Gwelsom dair ffeil staff a oedd yn dangos bod y broses recriwtio yn gadarn a bod yr holl wybodaeth i bennu addasrwydd staff ar gael. Mae'r tri aelod o staff, sy'n ymarferwyr profiadol, yn gweithio yn y gwasanaeth hwn bob bore, ac mewn chwaer-wasanaeth lleol bob prynhawn. Mae dirprwy dynodedig yn cefnogi'r person â chyfrifoldeb fel y bo angen. Mae pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, nid oes sesiynau goruchwylio un i un yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Dylai'r cyfarfodydd hyn gynnig cyfleoedd i'r staff fyfyrio ar eu harfer ac i'r person â chyfrifoldeb roi adborth a chyngor iddynt fel y bo angen. Mae'r person â chyfrifoldeb yn bwriadu cael hyfforddiant ar oruchwylio yn y dyfodol agos yn ogystal â sefydlu rhaglen o gyfarfodydd goruchwylio staff gyda chymorth yr athro ymgynghorol. Gellir hefyd ddefnyddio "Canllaw ar oruchwylio ac arfarnu'n dda" Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi hyn.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn darparu cymorth ac arweiniad effeithiol i'r staff, ond nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer goruchwylio staff wedi'u sefydlu'n addas.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn cynnal cydberthnasau da â'r rhieni er mwyn meithrin ymddiriedaeth a sicrhau cyfathrebu clir. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i nodi anghenion a dewisiadau unigol y plant.  Caiff nifer y sesiynau cynefino ar gyfer plant newydd eu pennu ar sail anghenion unigol y plentyn, a gall rhieni ofyn am sesiynau ychwanegol os byddant yn teimlo bod eu hangen. Mae systemau cadarn ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am lesiant a datblygiad eu plentyn. Mae'r rhieni'n gwybod bod polisi drws agored ar waith a gwelsom rieni'n trafod materion â gweithiwr allweddol eu plentyn ar ddiwedd y sesiynau. Mae'r rhieni'n cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad a wneir ynghylch eu plentyn. Dywedasant wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am eu

plentyn yn ddyddiol. Dywedodd y rhieni hefyd eu bod yn teimlo bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer yr ysgol drwy fynychu'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwyr yn annog ac yn cynnal partneriaethau gwerthfawr er mwyn sicrhau bod y plant yn cael y budd mwyaf posibl o'r gwasanaeth.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer atal a rheoli heintiau;
- cynnal sesiynau goruchwylio un i un ffurfiol rheolaidd â'r staff
- y person â chyfrifoldeb i gwblhau hyfforddiant ar oruchwylio

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, a drefnwyd ymlaen llaw ar ôl cofrestru, oedd hwn. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth, a hynny am bum awr ar y diwrnod cyntaf a thair awr ar yr ail ddiwrnod.

- Arsylwyd ar y plant a'r gofal a gawsant yn ystod y sesiynau. Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI) wrth gwblhau'r arsylwadau hyn. Mae'r fframwaith hwn yn galluogi arolygwyr i
- cynhaliwyd hefyd archwiliad gweledol o'r safle, a hynny dan do ac yn yr awyr agored;
- cawsom sgwrs â nifer o'r plant, pedwar rhiant, dau aelod o'r staff, y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;
- ystyriwyd y wybodaeth sydd gennym eisoes yn dilyn y broses gofrestru
- edrychwyd ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, dogfennau iechyd a diogelwch a'r polisi diogelu. Edrychwyd hefyd ar ffeiliau tri aelod o'r staff a ffeiliau pedwar plentyn.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar gael ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Andrea Parfitt** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-4 oed** |
| **Oriau agor** | **9.15-11.45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestriad newydd ar 8 Mehefin 2018** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **5 a 6 Chwefror 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |